

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda**

**Practis Deintyddol Hendy-
gwyn ar Daf**

16 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	8
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	15
6.	Y Camau Nesaf.....	16
	Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf yn 6 Stryd y Brenin Edward, Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin SA34 0AA, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar 16 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol sy'n ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Hendy-gwyn ar Daf, Sir Gaerfyrddin. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn bennaf, yn ogystal â rhywfaint o wasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd (un prif ddeintydd ac un deintydd cyswllt) a phedair nyrs ddeintyddol/derbynnydd. Y prif ddeintydd sy'n cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros reoli'r practis.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod
- Triniaethau cosmetig
- Arbedwyr dannedd ar gyfer chwaraeon

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar y modd roedd Practis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Yn ddiethriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym. Roedd hyn gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd da i gleifion. Gwelsom fod safon y cyfleusterau clinigol yn dderbyniol a bod safon y cofnodion yn dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig, argaeledd cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaredu cyfarpar a gwastraff. Roedd angen gwneud rhai gwelliannau i broses ddadheintio'r practis ac roedd mân feysydd i'w gwella o ran cadw cofnodion.

Gwelsom fod tîm staff ymroddedig yn y practis a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Ar y cyfan, roedd systemau ar waith i sicrhau bod hyfforddi staff, trafod cwynion, a pholisïau a gweithdrefnau, yn cael eu monitro'n barhaus. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau o ran arfarniadau staff, cyfarfodydd staff a rhai polisïau.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth. Gwnaethom anfon llythyr sicrwydd ar unwaith ar 17 Mehefin 2015 ynglŷn â hyfforddiant penodol ar gyfer y deintyddion; cyfleusterau ac offer golchi dwylo petai argyfwng. Gwnaethom dderbyn cadarnhad ar 22 Mehefin 2015 fod pob elfen wedi derbyn sylw boddhaol.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 10 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Gwnaethom siarad hefyd â thri chlaf tra ein bod ni yn y practis. Roedd pob claf wedi bod yn derbyn gofal a thriniaeth yn y practis ers dros 15 mlynedd.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiaduron a'r rhai hynny a siaradodd â ni eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis, a'u bod wedi cael croeso gan aelodau'r staff. Dim ond un claf a ddywedodd wrthym ei fod wedi profi oedi cyn cael ei weld gan y deintydd, ond nid oedd hyn wedi bod yn broblem iddo. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r practis deintyddol yn gwbl ddibynadwy. Maen nhw bob amser yn llwyddo i'ch gweld chi os oes angen apwyntiad brys arnoch. Mae'r staff yn gymwynasgar a chwrtais iawn. Dim cwyn”

“Deintyddfa groesawgar iawn. Staff chwrtais a chymwynasgar”.

Pan ofynnwyd i'r cleifion am wybodaeth am driniaeth, dywedodd pob un ohonynt fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth yr oedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl.

Roedd saith o gleifion yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis a chanfod bod gwybodaeth ynglŷn â gwasanaethau y tu allan i oriau wedi'i recordio er gwybodaeth i gleifion. Roedd hynny hefyd wedi'i arddangos ar ddrws ffrynt y practis.

Roedd y practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Mercher rhwng 9am a 5pm, ar ddydd Iau rhwng 9am a 4pm, ac ar ddydd Gwener rhwng 9am a 5pm bob wythnos. Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau brys. Dywedodd un claf:

“ Oherwydd ymrwymadau gwaith, byddai apwyntiadau cynharach neu hwyrach yn dda”.

Nododd hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn, pe byddai angen. Er i ni weld y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn y man aros, nid oedd i'w gweld yn y taflenni gwybodaeth i gleifion, ac nid oedd yn cynnwys y manylion AGIC gofynnol yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Ac nid oedd y wybodaeth ynghylch gwneud cwyn yn cyfeirio at hawliau cleifion i geisio cymorth gan y cyngor iechyd cymuned lleol, yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella 2011 y GIG. Roedd hyn yn golygu nad oedd cleifion yn gallu dod o hyd i'r manylion cyswllt os oedd angen. Ni wnaeth unrhyw un drafod unrhyw bryderon â ni tra roeddem yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddiweddarau'r polisi cwyno i nodi manylion cyswllt AGIC (ar gyfer cleifion preifat) a Chyngor Iechyd Cymuned (ar gyfer cleifion y GIG).

Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn dosbarthu holiaduron boddhad ymhlith cleifion er mwyn ceisio eu barn ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir yn y practis. Cafodd yr arolwg diweddaraf o safbwyntiau'r cleifion eu cwblhau y llynedd (2014). Cadarnhaodd y staff eu bod yn cofnodi pob adborth anffurfiol ac adborth ar lafar gan gleifion.

Roedd cofnodion cleifion a'n holiaduron yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am risgiau, manteision a thriniaethau amgen er mwyn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â'u triniaeth. Roedd pob claf hefyd yn derbyn cynllun triniaethau ysgrifenedig.

Roedd amrywiaeth bach o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa/man aros. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym. Roedd hyn gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd da ar gyfer cleifion. Gwelsom fod safon y cyfleusterau clinigol yn dderbyniol a bod safon y cofnodion yn dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar radiograffig, argaeledd cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, a gwaredu cyfarpar a gwastraff. Roedd angen gwneud rhai gwelliannau i broses ddadheintio'r practis ac roedd mân feysydd i'w gwella o ran cadw cofnodion.

Offer/dogfennau radiograffeg

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (peilydr-X) yn ddiogel. Gwelwyd dogfennau perthnasol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phrofion. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio. Trafodwyd hyn gyda'r deintydd ac anfonwyd llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis ar 17 Mehefin 2015. Yn dilyn hynny, derbyniodd AGIC gadarnhad fod y deintydd wedi dilyn hyfforddiant achrededig ar-lein o fewn yr amserlen a bennwyd.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffig a'u bod wedi cynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd ar gyfer cyfarpar radiograffig. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel, a bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei fonitro'n barhaus.

Dadebru a chymorth cyntaf

Gwelsom fod siartiau llif ar gael a oedd yn amlinellu sut i ymdrin â gwahanol argyfyngau meddygol. Roedd y staff yn wybodus ynglŷn â'r hyn ddylid ei wneud pe byddai argyfwng meddygol, ac roedd polisi dadebru wedi'i sefydlu er mwyn amlinellu swyddogaethau a chyfrifoldebau pob aelod o'r staff.

Roedd un aelod o staff wedi'i benodi'n swyddog cymorth cyntaf, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol. Roedd cyfarpar dadebru priodol a threfnus ar gael i'r staff pe byddai argyfwng meddygol (llewyg). Fodd bynnag, canfuwyd bod y llwybrau anadlu breuannol wedi mynd heibio'u dyddiad dod i ben. Gwnaethom anfon llythyr sicrwydd ar unwaith i'r practis yn dilyn ein harolygiad yn gofyn am gadarnhad bod llwybrau anadlu newydd wedi'u prynu. Ers hynny, rydym wedi cael y cadarnhad o fewn yr amserlen a bennwyd gan AGIC.

Gwnaethom hefyd drafod yr angen i'r practis ddatblygu system ar gyfer monitro dyddiadau terfyn yr holl gyfarpar meddygol a gedwir yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer monitro dyddiadau dod i ben mewn cysylltiad â chyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys.

Ar adeg ein harolygiad, roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi eu hyfforddi a bod y cyfarpar ganddynt i reoli argyfyngau meddygol.

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd y cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys wedi'u storio'n drefnus mewn lleoliad da a diogel. Roedd system gadarn ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n cael eu monitro. Roedd y llyfrau presgripsiwn hefyd wedi'u cadw'n ddiogel er mwyn atal pobl rhag mynd atynt heb ganiatâd. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)

Nid oedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol, fel y nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (adolygiad 1). Ond gwelsom gynlluniau ar gyfer troi'r gegin ar y llawr cyntaf i fod yn ystafell ddadheintio benodol. Roedd y practis wedi awgrymu amserlen o chwe mis ar gyfer cyflawni'r gwaith. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd yr offer a ddefnyddiwyd yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y ddwy ystafell driniaeth. Roedd dwy sinc ar gael, gydag un ar gyfer golchi dwylo ac un ar gyfer golchi a rinsio offer. Fodd bynnag, hysbyswyd y practis o'r angen i gyflwyno sinc ar wahân ar gyfer rinsio offer ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis gael sinciau ar wahân ar gyfer golchi dwylo, golchi offer a rinsio offer yn y drefn honno.

Roedd y cyfarpar a ddefnyddir i sterileiddio yn yr ystafelloedd triniaeth hefyd. Gwnaethom drafod pwysigrwydd peidio ag agor y drysau i'r cyfarpar sterileiddio tra bod cleifion yn yr ystafell driniaeth, er mwyn atal croes-heintio. Roedd y staff yn defnyddio cyfarpar diogelu personol priodol, megis ffedogau, menyg a chyfarpar diogelu llygaid. Roedd yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau ar ôl eu sterileiddio, gan nodi'r dyddiad prosesu arnynt. Roedd yr holl offer a archwiliwyd o fewn eu dyddiad defnyddio, ac roedd system fewnol ar waith i wirio hyn, gydag amserlenni addas wedi eu nodi. Roedd hyn yn golygu bod prosesau amserol wedi'u sefydlu i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom fod pob aelod o staff sy'n cynnal gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau.

Gwelsom fod y llyfrau cadw cofnod ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol a oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd bob dydd.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o'i drefniadau rheoli heintiau, er nad oedd y dogfennau a ddefnyddiwyd yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Felly, gwnaethom drafod y mater hwn gyda'r tîm gan awgrymu y dylai'r practis ddefnyddio dull archwilio Deoniaeth Cymru, yn unol â'r canllawiau cyfredol. Er bod y practis wedi sefydlu systemau ar gyfer monitro cydymffurfiaid parhaus â gofynion rheoli heintiau (er mwyn sicrhau bod offer yn ddigon glân a diogel i'w defnyddio ar gleifion), roedd hyn yn golygu bod angen eu newid er mwyn adlewyrchu'r canllawiau presennol.

Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân, yn daclus ac yn drefnus, a'u bod yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd niferoedd digonol o offer deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi ei storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom gyflenwad digonol o eitemau untro a chyfarpar diogelu hefyd.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd safon cofnodion y cleifion yn y practis yn dda, gyda chofnodion trylwyr a manwl ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd gofal a thriniaeth cleifion.

Gwelsom fod hanesion meddygol cleifion yn cael eu diweddarau'n gyson ym mhob ymweliad er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau'n cael eu cofnodi, ac er mwyn ymateb iddynt. Roedd y system a oedd ar waith yn gyfuniad o gofnodion papur a chofnodion electronig. Yn benodol, roedd y cofnodion papur o hanesion meddygol newydd/diwygiedig wedi'u cwblhau yn cael eu harchwilio a'u llofnodi gan y deintyddion a'r rhieni. Yna roeddent yn cael eu sganio i gofnodion electronig y cleifion.

Gwelsom hefyd fod y deintyddion yn cofnodi cynlluniau triniaeth a dewisiadau o ran triniaeth yn gyson.

Fodd bynnag, gwelsom fân anghysondebau ynglŷn â'r canlynol:

- Nid oedd hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei gofnodi na'i ddiweddarau, ac nid oedd unrhyw gofnod o gynnig cyngor am roi'r gorau i ysmegu
- Nid oedd cydsyniad claf i driniaeth yn cael ei gofnodi bob amser
- Nid oedd dyddiadau ail-alw'n cael eu cofnodi bob amser
- Er bod graddau radiograffau yn cael eu cofnodi mewn llyfr archwilio, dylid eu nodi yng nghofnodion y cleifion hefyd.
- Nid oedd archwiliadau meinwe meddal yn cael eu cofnodi bob amser

Serch hynny, ar y cyfan rhoddwyd sicrwydd i ni fod ansawdd y cofnodion periodontol a radiograffig a'r sganiau pelydr-X o safon da iawn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella cadw cofnodion yn y meysydd a nodwyd.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod tîm staff ymroddedig yn y practis a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi. Ar y cyfan, roedd systemau ar gael i sicrhau bod hyfforddi staff, trafod cwynion, a pholisïau a gweithdrefnau, yn cael eu monitro'n barhaus. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau o ran arfarniadau staff, cyfarfodydd staff a rhai polisiau.

Staff

Y prif ddeintydd yw perchennog y practis ac ef hefyd sy'n gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd un deintydd cyswllt yn gweithio yn y practis hefyd. Roedd y practis yn darparu deintyddiaeth breifat yn bennaf a rhywfaint o wasanaethau'r GIG. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn canolbwyntio ar y cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth.

Roedd y ddau ddeintydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gontractau cyflogaeth. Roedd gan yr holl staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, fel sy'n ofynnol.

Gwelsom fod tystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion (yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC), wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwedd hepatitis B ar gyfer holl aelodau'r staff clinigol, ac roedd gan bob un ohonynt yswiriant indemniad perthnasol i'w gwaith clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus wedi'i gyflawni gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Gwelsom ffeil gynefino yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a oedd yn cael ei defnyddio i gynorthwyo staff newydd wrth iddynt ddechrau eu swydd.

Er bod y cyfarfodydd staff yn anffurfiol ac nad ydynt yn cael eu cynnal yn aml, dywedwyd wrthym y trafodwyd ystod o bynciau perthnasol. Anogwyd aelodau o'r tîm i fynegi pryderon ac awgrymu pynciau i'w trafod hefyd. Ni chofnodwyd cyfarfodydd staff.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis drefnu cyfarfodydd staff ffurfiol a rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth a newidiadau yn y practis.

Roedd system ar waith ar gyfer arfarniadau ffurfiol, ond nid oeddent wedi'u cynnal ers peth amser. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff wrth iddynt ystyried eu gwaith eu hunain, ac i nodi unrhyw anghenion cymorth ac anghenion o ran datblygiad proffesiynol. Dywedodd rheolwr y practis wrthym y byddai'r rhain yn dechrau yn y dyfodol agos.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd.

Amddiffyn plant ac oedolion

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac wedi cadw lle ar gwrs diweddar ym mis Gorffennaf 2015. Roedd polisi amddiffyn plant wedi'i sefydlu, ond nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt lleol ar gyfer gwneud atgyfeiriadau.

Roedd staff hefyd wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd polisi wedi'i sefydlu, a gwnaethom argymhell ychwanegu manylion cyswllt lleol, pe byddai angen i staff wneud atgyfeiriad.

Cwynion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a gweld nad oedd yn cydymffurfio'n llwyr â gofynion 'Gweithio i Wella'⁴ y GIG. Hysbyswyd y practis o'r angen i sefydlu gweithdrefn gwyno ar wahân sy'n ymdrin â'r trefniadau ar gyfer cleifion preifat, sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu'r polisi cwyno presennol i fodloni'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol.

Nid oedd unrhyw gwynion cyfredol i ni eu hystyried. Dywedwyd wrthym fod cwynion yn cael eu cadw'n ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Roedd

⁴ Nod **Gweithio i Wella** oedd ei gwneud hi'n haws i gleifion a gofalwyr leisio pryderon. Cyflwynodd ddull unigol a mwy cyfannol, gan ddod â'r broses o reoli cwynion, digwyddiadau a honiadau at ei gilydd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda'.

sylwadau a phryderon ar lafar yn cael eu cofnodi hefyd, ond roedd y rhain yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion. Gwnaethom argymhell cofnod canolog ar gyfer pryderon llafar/anffurfiol er mwyn amlygu tueddiadau yn gynnar. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis ffurfioli ei ddull o adolygu'r cwynion yn gyffredinol dros amser, er mwyn canfod tueddiadau a phatrymau fel ffordd ychwanegol o wella'r gwasanaeth.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus a chyfforddus yn codi pryderon gyda'r prif ddeintydd. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

Polisiâu a gweithdrefnau

Yn gyffredinol, gwelsom fod y practis wedi sefydlu amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol, a bod y rhain yn lleol ac yn cael eu defnyddio'n uniongyrchol yn amgylchedd y practis. Roedd tystysgrifau a chofnodion ar gael ar gyfer y gwaith o gynnal a chadw offer hefyd. Roedd polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu ond ni nodwyd y dyddiad arnynt er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio gyda'r wybodaeth fwyaf cyfredol. Roedd datganiad ar gael yn natganiad o ddiben y practis (dogfen sy'n nodi sut mae'r practis yn bwriadu cyflenwi gwasanaethau) yn ymwneud â phreifatrwydd ac urddas. Hysbyswyd y practis o'r angen i ddatblygu'r datganiad hwnnw i fod yn bolisi staff gwaith yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd gan y practis drefniant gyda phractisau cyfagos (o fewn y bwrdd iechyd) i archwilio agweddau ar eu gwasanaethau perthnasol ar gyfer llywodraethu a sicrhau ansawdd. Mae hyn yn enghraifft o arfer hynod.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel, hygyrch a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli yn nhref fechan Hendy-gwyn ar Daf. Roedd y practis wedi'i osod ar ddau lawr. Roedd y dderbynfa a'r ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear, ac roedd yr ystafell staff, y storfa, y gegin, a thoiledau'r staff ar y llawr cyntaf. Roedd maes parcio mawr am ddim y tu cefn i'r practis.

Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Y tu mewn, roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus, ac wedi'i oleuo, ei wresogi a'i awyru'n briodol.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r deintyddion, yn ogystal â'r amseroedd agor a'r rhif cyswllt mewn argyfwng er gwybodaeth i gleifion. Roedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Roedd maint y man aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Roedd un nyrs wedi'i neilltuo ar gyfer dyletswyddau derbynfa, er bod pob aelod o staff yn gwneud y gwaith o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth dda o sut i wneud y ddwy swydd. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen ac amrywiaeth bach o bosteri a thafleini cyngor a hyrwyddo iechyd. Roedd arddangosfa hybu iechyd ddyfeisgar iawn a llawn gwybodaeth ar y wal yn ymwneud â chynnwys siwgr mewn diodydd meddal.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd gohebiaeth bapur cleifion wedi eu storio'n ddiogel o dan glo, ac roedd copi wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael ei wneud bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu gwybodaeth am y cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Practis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Bydd y cynllun gwella, pan gytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Hendy-gwyn ar Daf

Dyddiad yr arolygiad: 16 Mehefin 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Profiad y Claf				
Tudalen 7	Mae angen i'r practis ddiweddarau'r polisi cwyno i nodi manylion cyswllt AGIC (ar gyfer cleifion preifat) a Chyngor Iechyd Cymuned (ar gyfer cleifion y GIG). [Gweithio i Wella 2011; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008].	Bydd y polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn dangos y manylion cyswllt perthnasol.	G Rees	7/10/2015
Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal				
Tudalen 9	Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer monitro dyddiadau dod i ben mewn cysylltiad â chyfarpar a ddefnyddir mewn achosion brys.	Mae'r system bresennol ar gyfer monitro cyffuriau a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys wedi'i ymestyn ar gyfer y manylyn a anghofwyd.	G Rees	7/10/2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	[Safonau Iechyd a Gofal 2.6].			
Tudalen 9	Mae'n rhaid i'r practis gael sinciau ar wahân ar gyfer golchi dwylo, golchi offer a rinsio offer yn y drefn honno. [Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05].	Mae powlen ychwanegol wedi'i darparu ym mhob ystafell driniaeth ar gyfer rinsio offer ar ôl eu golchi. Mae hyn yn cyd-fynd â'r sinciau golchi dwylo a'r sinciau golchi offer presennol sydd ym mhob ystafell driniaeth.	G Rees.	7/10/2015
Tudalen 11	Mae angen i'r practis archwilio cofnodion cleifion er mwyn gwella'r cofnodion yn y meysydd a amlygwyd. [Safonau Iechyd a Gofal 3.3; 3.5; Cyngor Deintyddol Cyffredinol Safon 4]	Bydd y cyfleusterau presennol yn y feddalwedd rheoli yn cael eu defnyddio'n amlach er mwyn sicrhau bod y cofnodion yn fwy cyson. Bydd canfyddiadau negyddol yn cael eu cofnodi'n fwy rheolaidd.	G Rees.	7/10/2015
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
Tudalen 12	Dylai'r practis drefnu cyfarfodydd staff ffurfiol a rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth a newidiadau yn y practis. [Cyngor Deintyddol Cyffredinol; 6.6].	Gwnaed trefniadau i gynnal cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd yn lle'r cyfarfodydd practis anffurfiol.	G Rees.	7/10/2015
Tudalen 14	Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael arfarniadau rheolaidd.	Bwriedir cynnal arfarniad blynyddol ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r dyddiad ar gyfer hyn wedi'i nodi yn nyddiadur y practis.	G Rees.	7/10/2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	[Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6.1].			
Tudalen 13	Mae'n rhaid i'r practis ddatblygu'r polisi cwyno presennol i fodloni'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol. [Gweithio i Wella 2011; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008].	Mae polisi cwyno wedi'i ddiweddarau wrthi'n cael ei sefydlu.	G Rees.	7/10/2015
Ansawdd yr Amgylchedd				
	Dim wedi'i nodi.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras): **G Rees**

Teitl: **Prif Ddeintydd / Perchennog**

Dyddiad: **24/8/15**